# Gweithdrefn Cyfathrebu ac Ymgynghori Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo** | *Grŵp Gweithredol y Brifysgol* |
| **Dyddiad Cymeradwyo** | *Chwefror 2022* |
| **Perchennog y Ddogfen** | *Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd* |
| **Cyswllt y Ddogfen** | *Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd*<br>*hasstaff@aber.ac.uk neu 01970 62(2073)* |
| **Statws y Ddogfen** | *Cymeradwywyd* |
| **Cyfeirnod** | *P025* |
| **Fersiwn** | *Fersiwn 1* |
| **Dyddiad adolygu** | |

## 1. Cwmpas

Amlinellu'r prosesau ar gyfer cynnwys cyflogeion ac ymgynghori â nhw a sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am iechyd, diogelwch a'r amgylchedd yn cael ei chyfleu i a chan gyflogeion a phartïon eraill â diddordeb.

## 2. Gofynion cyfreithiol

Rheoliadau Cynrychiolwyr Diogelwch a Phwyllgorau Diogelwch 1977
Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Ymgynghori â Chyflogeion) 1996
Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Arwyddion a Signalau Diogelwch) 1996

## 3. Diffiniadau

Dim

## 4. Canllawiau

G004 Canllaw Sesiynau Cynefino Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd Lleol
G009 Canllaw Llawlyfr Iechyd a Diogelwch Athrofeydd ac Adrannau
G010 Canllaw Pwyllgorau Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd Cyfadrannol neu Adrannol
G011 Canllaw Hyfforddiant Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd
G015 Llawlyfr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd

## 5. Gweithdrefn

### 5.1 Ymgynghori

Grŵp Gweithredol Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd y Brifysgol yw'r prif fforwm ar gyfer ymgynghori drwy'r Undebau Llafur a Chynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch Cyflogeion pan fydd unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar iechyd a diogelwch yn y gweithle.

Mae'r Brifysgol yn gweithredu'r canlynol:

- *Grŵp Gweithredol Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd* – Prif swyddogaeth y tîm hwn yw monitro ac adolygu addasrwydd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd parhaus y system rheoli iechyd a diogelwch; sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli ac yn oddefadwy; a darparu cyfeiriad strategol i sicrhau gwelliant parhaus. Mae Cylch Gorchwyl y Grŵp ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/corporate-information/governance/sub-committees/

- *Grwpiau Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd Cyfadrannol/Adrannol* – Prif swyddogaeth y pwyllgor hwn yw rhannu arferion gorau, profiadau dysgu, a nodi/gweithredu cyfleoedd gwella mewn Cyfadran/Adran neu ar draws y Brifysgol.

Amlinellir cyfranogwyr, amlder, mewnbynnau ac allbynnau'r Pwyllgorau Iechyd a Diogelwch hyn yn y cylch gorchwyl a'r dogfennau canllaw G010, sydd ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/documents/.

Bydd y Pwyllgorau neu'r Grŵp Iechyd a Diogelwch lleol yn ddigwyddiadau gweithdy sy'n canolbwyntio ar weithredu, ac yn gallu cynnwys yr elfennau canlynol ar sail gylchol a/neu gyfnodol:

- *Adolygiadau o'r System Reoli* – Adolygu a rhannu gwybodaeth am berfformiad iechyd a diogelwch cyfredol a statws y system reoli (dangosyddion adweithiol a rhagweithiol).
- *Cyflwyniadau Themâu Gwella* – Cyflwyniadau ar themâu amserol/sy'n dod i'r amlwg y mae angen i'r sefydliad eu gweithredu.
- *Gweithdai Cyfunol* – Gweithdai lle mae cyfranogwyr yn canolbwyntio ar themâu arbenigol a gwyntyllu syniadau i fynd i'r afael â diffygion a gweithredu themâu gwella.

Dylid mynd i'r afael â phob perygl, a gweithredoedd ac amodau anniogel y tu allan i'r cyfarfodydd hyn.

### 5.2 Cynnwys Cyflogeion

Mae'r Brifysgol wedi sicrhau bod prosesau priodol yn cael eu sefydlu, bod ymgynghori a chyfathrebu yn digwydd o ran effeithiolrwydd y System Rheoli Iechyd a Diogelwch drwy ddiffinio'r dulliau hyn yn ei gweithdrefnau. Mae System Rheoli Iechyd a Diogelwch y Brifysgol yn cynnwys cyflogeion perthnasol a rhanddeiliaid eraill yn ôl yr angen fel rhan o'r prosesau canlynol:

- Asesiad Risg
- Gofynion Cyfreithiol a Gofynion Eraill
- Cynllunio Busnes
- Rheoli Newid

- Recriwtio a Dethol
- Cymhwysedd, Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant (gan gynnwys ymsefydlu)
- P019 – Ymgynghori a Chyfathrebu
- Dogfennaeth, Rheoli Data a Chofnodion
- Rheolaeth Weithredol
- Cynnal a chadw
- Contractwyr
- Deunyddiau Peryglus
- Parodrwydd ar gyfer Argyfwng, ac Ymateb i Argyfwng
- P001 – Gweithdrefn ar gyfer Cofnodi Digwyddiadau ac Achosion o Afiechyd Galwedigaethol
- Camau Unioni a Chamau Ataliol
- Archwiliadau
- Monitro ac Adolygu
- P018 – Adeiladu, Dylunio a Rheoli

**5.3 Rhannu Gwybodaeth**

Mae gan y sefydliad amrywiaeth o gyfryngau ar gyfer rhannu gwybodaeth iechyd a diogelwch i gyflogeion a phartïon eraill â diddordeb. Mae'r fframwaith isod yn amlinellu'r gwahanol gyfryngau, y wybodaeth sydd i'w rhannu, amlder hynny, a'r cyfrifoldeb:

| CYFRYNGAU | BETH | PRYD | PWY |
|---|---|---|---|
| Hysbysfyrddau / Wedi'u Harddangos | Mae'r mathau o wybodaeth ddefnyddiol sydd i'w chadw ar yr hysbysfwrdd yn cynnwys:<br>– Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol<br>– Poster Cyfraith Iechyd a Diogelwch<br>– Tystysgrif Atebolrwydd Cyflogwyr<br>– Dangosyddion Perfformiad Allweddol<br>– Ystadegau/Siartiau Digwyddiadau<br>– Enwau Cynrychiolydd Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd Cyflogeion<br>– Enw Cynrychiolydd Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd Rheolwyr<br>– Enw/Enwau Swyddog/ion Cymorth Cyntaf<br>– Arwyddion Gweithredu adeg Tân | Chwarterol | Rheolwr Cyfadran/<br>Cydlynydd Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd |
| Cyflwyniadau Diogelwch | Sgwrs fer anffurfiol yw cyflwyniad diogelwch a'i nod yw rhannu arferion gorau. Fel arfer, mae'n cael ei darparu ar y safle (nid mewn ystafell hyfforddi) ac ar bwnc penodol. Mae'n gyflwyniad â ffocws, gyda neges ddiogelwch benodol, ac mae modd ei chynnwys fel rhan o weithgaredd arall (e.e. cyfarfod staff). Yr amcan cyffredinol yw hybu ymwybyddiaeth o agwedd benodol ar y gwaith, yn ôl disgresiwn Rheolwr yr Adran, ac mae'n gallu cynnwys:<br>– Diweddariadau Gweithdrefnol | Yn ôl yr angen | Rheolwr Llinell/<br>Cydlynydd Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | – Diweddariadau Cyfarwyddyd Gwaith<br>– Rhannu Gwersi a Ddysgwyd drwy Ddigwyddiadau | | |
| Cofrestr Gyfreithiol a Chanllawiau | Mae pob cyflogai yn gallu troi at y gofrestr gyfreithiol a'r canllawiau, ac maen nhw wedi derbyn cyfarwyddyd ynghylch ble a sut i wneud hynny. | Parhaus | Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd |
| Cylchlythyr | Cylchlythyr sy'n canolbwyntio ar y materion iechyd a diogelwch canlynol sy'n gallu cynnwys:<br>– Astudiaethau Achos Arferion Gorau<br>– Cydnabod Ymddygiadau Diogel<br>– Gwelliannau wedi'u Cynllunio | Cyfarfodydd Deufisol | Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd |
| Adroddiad Blynyddol | Adroddiad blynyddol sy'n canolbwyntio ar y gweithgareddau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol canlynol:<br>– Perfformiad Iechyd a Diogelwch<br>– Tueddiadau Damweiniau a Digwyddiadau<br>– Cynllun Gweithredu Strategaeth Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd | Yn flynyddol | Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd |

### 5.4 <u>Cyfathrebu Allanol</u>

Mae'r fframwaith isod yn amlinellu'r mecanweithiau ar gyfer cychwyn sgwrs iechyd a diogelwch allanol:

| PARTI ALLANOL | BETH | PRYD | PWY |
|---|---|---|---|
| Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | Damwain Adroddadwy Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR)<br>Digwyddiad Peryglus RIDDOR<br>Clefyd Adroddadwy RIDDOR | Ar ôl digwyddiad | Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Hysbysiad o ollyngiadau a rhyddhau i ddraeniau heb awdurdod | Ar ôl digwyddiad | Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd |
| Yswiriwr | Hysbysiad o anaf sy'n arwain at golli amser gwaith a/neu hawliad sifil | Ar ôl digwyddiad | Gweinyddwr Yswiriant |



DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Contractwyr | Adolygu mecanweithiau presennol contractwyr ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch drwy ymgymryd â diwydrwydd dyladwy. | Fel y bo'n briodol | Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd<br><br>Llunwyr Contractau Cyfadran neu Adran |
| Cyflenwyr | Adolygu mecanweithiau presennol cyflenwyr ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch drwy ymgymryd â diwydrwydd dyladwy. | Fel y bo'n briodol | Llunwyr Contractau Cyfadran neu Adran |
| Myfyriwr | Cyfleu peryglon, rhagofalon a rheolau'r campws | Fel y bo'n briodol | Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd<br><br>Cyfadran Berthnasol |
| Partïon eraill â diddordeb | Darparu polisi iechyd a diogelwch galwedigaethol i barti â diddordeb ar gais. | Fel y bo'n briodol | Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd |
| Ymwelwyr | Cyfleu peryglon, rhagofalon a rheolau'r campws | Fel y bo'n briodol | Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd<br><br>Trefnydd Digwyddiad |

### 5.5 <u>Arwyddion a Hysbysiadau</u>

Mae'r fframwaith isod yn amlinellu'r arwyddion a'r hysbysiadau y mae'n rhaid eu harddangos:

| BETH | LLE | PWY |
|---|---|---|
| 1 Poster Cyfraith Iechyd a Diogelwch "Beth sydd angen i chi ei wybod" | I'w arddangos mewn lleoliad(au) amlwg yn y gweithle | Rheolwr Cyfadran/<br><br>Cydlynydd Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd |
| 2 Tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr | I'w arddangos mewn lleoliad(au) amlwg yn y gweithle | Rheolwr Cyfadran/<br><br>Cydlynydd Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| 3 Gweithdrefnau Tân | I'w arddangos mewn lleoliad(au) amlwg yn y gweithle | Swyddog Diogelwch Tân |
| 4 Cymorth Cyntaf (enwau swyddogion cymorth cyntaf a lleoliad y cyfleusterau) | I'w arddangos mewn lleoliad(au) amlwg yn y gweithle | Rheolwr Cyfadran/<br>Cydlynydd Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd |
| 5 Arwyddion Gwahardd<br>*"arwydd sy'n gwahardd ymddygiad sy'n debygol o gynyddu neu achosi perygl (e.e. dim ysmygu)"*  | I'w arddangos yn benodol yn y mannau ble mae risg | Asesydd Risg |
| 6 Arwyddion rhybuddio<br>*"arwydd sy'n rhoi rhybudd o berygl neu berygl (e.e. perygl: tryciau fforch godi)"*  | I'w arddangos yn benodol yn y mannau ble mae risg | Asesydd Risg |
| 7 Arwyddion Gorfodol<br>*"arwydd sy'n mynnu ymddygiad penodol (e.e. rhaid gwisgo offer diogelu'r llygaid)"*  | I'w arddangos yn benodol yn y mannau ble mae risg | Asesydd Risg |
| 8 Arwyddion Argyfwng<br>*"arwydd sy'n rhoi gwybodaeth am allanfeydd brys, cymorth cyntaf, neu gyfleusterau achub (e.e. allanfa frys/llwybr dianc)"*  | I'w arddangos yn benodol yn y mannau ble mae risg | Swyddog Diogelwch Tân |

DRAFT

DRAFT

DRAFT